# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 20 Mehefin 2006]

**Dydd Mawrth 27 Mehefin a dydd Mercher 28 Mehefin 2006**

**Dydd Mawrth 4 Gorffennaf a Dydd Mercher 5 Gorffennaf 2006**

**Dydd Mawrth 11 Gorffennaf a Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2006**

**<u>Dydd Mawrth 27 Mehefin 2006</u>**

- **Motion to elect a Planning Decision Committee (1 munud)**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Rheoliadau Eitemau Ceramig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2006**

Diben y Rheoliadau hyn yw gweithredu Cyfarwyddeb 2005/31/EC. sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 84/500/EEC. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod terfyn ar lefelau plwm a chadmiwm (metel gwenwynig sy'n cael ei ddefnyddio fel gwydredd) a ganiateir i drosglwyddo o eitemau ceramig a ddaw i gysylltiad â bwyd. Mae hefyd yn rhagnodi'r dulliau profi sydd i'w defnyddio i fesur faint o blwm a chadmiwm sy'n cael eu trosglwyddo. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol gwneud datganiad o gydymffurfedd o ran y terfynau hyn ac mae'n cyflwyno modd sydd wedi'i seilio ar berfformiad i'r dull dadansoddol o fesur y lefelau trosglwyddo.

Ø **Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol ac Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod ag Asiantaethau Meddygol Annibynnol o dan awdurdod rheoleiddio Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Daeth Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat ac Annibynnol (Cymru) 2002 i rym ym mis Ebrill 2002. Y bwriad adeg yr ymgynghoriad oedd cynnwys Asiantaethau Meddygol Annibynnol yn y Rheoliadau hyn. Serch hynny, penderfynwyd dileu'r cyfeiriad atynt wedi hynny, oherwydd credid nad oedd unrhyw un ohonynt yn bodoli yng Nghymru. Er nad oes unrhyw dystiolaeth o hyd i awgrymu bod unrhyw asiantaethau o'r fath yng Nghymru, bellach ystyrir ei bod yn synhwyrol er lles cyflawnder a chysondeb â Lloegr, ac er mwyn mynd i'r afael â materion trawsffiniol, i'w cynnwys yn y Rheoliadau ac i ddatgan bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn berthnasol i asiantaethau o'r fath. Y bwriad yw y bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2006, ar y cyd â'r Rheoliadau hyn, ond byddant yn cael eu cyflwyno ar wahân o dan Reol Sefydlog 29.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 rhan 2, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 (1 munud)**

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 yn ailgyflwyno

taliadau sy'n berthnasol i wasanaethau sy'n ymwneud â chyflwyno tystysgrifau iechyd planhigion a thystysgrifau iechyd planhigion ar gyfer gwasanaethau ailallforio a chynallforio a gynhaliwyd cyn y cyflwynwyd cais am dystysgrif.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 2 (15 munud)**

Y Rheoliadau yw'r fframwaith sylfaenol ar gyfer sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys:

- swyddogaethau'r Byrddau;
- aelodaeth y Byrddau;
- cynnal adolygiadau o achosion difrifol;
- gweithdrefnau'r Byrddau; a
- swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Bwrdd.

Bydd y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn disodli'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant anstatudol, a byddant yn cyd-drefnu yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan eu haelodau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal yr awdurdod lle y'u sefydlwyd, yn ogystal ag yn sicrhau effeithlonrwydd y Byrddau.

- **Cynnig I gymeradwyo The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3 (10 munud )**

The European Community has in place a regime permitting the setting, on a scientific basis, of maximum pesticide residue levels (MRLs) on crops, food and feeding stuffs. The programme has been designed to harmonise Community legislation and strengthen consumer protection by providing a mechanism to take action should any pesticide misuse

occur.

These Regulations transpose three EC Directives (2006/4/EC, 2006/9/EC and 2006/30/EC, which amend the framework Directives (86/362/EEC, 86/363/EEC and 90/642/EEC) developed as part of an on going programme to establish MRLs for all pesticides in a wide range of foodstuffs.

**Cynnig i drafod y naw eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (45 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau System Fesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi disgrifiadau o beryglon at ddibenion Deddf Tai 2004. Maent hefyd yn rhagnodi dull o asesu difrifoldeb y peryglon sy'n cael eu disgrifio a chyfrifo'r sgôr rhifyddol a ddefnyddir y benderfynu i ba fand a ragnodir yn y Rheoliadau y mae'r perygl yn perthyn.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Dros Dro) (Amgylchiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu'r set o sefyllfaoedd sy'n un o'r amodau sydd angen i dribiwnlys eiddo preswyl eu bodloni cyn y gall awdurdodi awdurdod tai lleol i wneud gorchymyn rheoli interim mewn perthynas â thy sy'n cael ei feddiannu o dan un neu ragor o denantiaethau neu drwyddedau, nad oes yr un ohonynt wedi'i eithrio o'r gofynion trwyddedu yn Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu'r darpariaethau trwyddedu sydd yn Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Tai 2004. Maent yn amlinellu pryd y dylid ystyried bod pobl yn rhan o un aelwyd, ar gyfer penderfynu a yw adeilad yn dy amlfeddiannaeth; mae'n darparu y dylid trin llety sy'n cael ei feddiannu gan weithwyr mudol, gweithwyr tymhorol a cheiswyr lloches fel unig neu brif breswylfa y bobl hynny; mae hefyd yn nodi cynnwys y ceisiadau am drwyddedau a'r safonau y dylid eu defnyddio wrth benderfynu pa mor addas yw trwyddedu adeilad yn dy amlfeddiannaeth. Mae'n nodi'r gofynion cyhoeddi sy'n ymwneud â dynodi ardaloedd sydd i fod yn destun prosesau trwyddedu ychwanegol neu ddetholus, ac â diddymu dynodiadau o'r fath. Mae hefyd yn nodi cynnwys y rhestrau y mae awdurdodau tai lleol yn eu cynnal o drwyddedau a roddwyd, hysbysiadau eithrio dros dro a gorchmynion rheoli. Yn olaf, maent yn ategu atodlen 14 o'r Ddeddf drwy nodi pa adeiladau eraill nad ydynt yn cael eu diffinio fel tai amlfeddiannaeth at ddibenion y Ddeddf (ac eithrio Rhan 1).

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi disgrifiadau o dai amlfeddiannaeth a fydd yn destun prosesau trwyddedu gan awdurdodau tai lleol o dan ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol trwyddedu pob t amlfeddiannaeth o dri llawr neu ragor sy'n cael ei feddiannu gan pum person neu ragor mewn dau neu ragor o aelwydydd ar wahân, oni bai fod y t amlfeddiannaeth wedi ei eithrio dros dro o'r gofynion, neu ei fod yn cael ei reoli gan awdurdod tai lleol trwy gyfrwng gorchymyn rheoli.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi dyletswyddau rheolwyr tai amlfeddiannaeth ac yn nodi beth sy'n rhaid i feddiannwyr ei wneud i gynorthwyo rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol**

**Penodedig) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dynodi adeiladau nad ydynt yn dai amlfeddiannaeth at ddibenion Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004 os ydynt yn cael eu meddiannu gan bobl sy'n ymgymryd â chwrs addysg bellach llawnamser mewn sefydliad dynodedig neu mewn sefydliad o ddisgrifiad arbennig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dynodi mai'r sawl sy'n rheolydd neu'n rheolwr ar yr adeilad yw'r sefydliad addysgol dan sylw.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymeradwyo tri chod ymarfer sy'n nodi safonau ymddygiad ac ymarfer sydd i'w dilyn wrth reoli tai amlfeddiannaeth ac adeiladau eraill sy'n cael eu meddiannu yn unig neu yn bennaf gan fyfyrwyr llawnamser. Yr adeiladau eraill yw adeiladau nad ydynt yn dai amlfeddiannaeth, sef neuaddau preswyl Prifysgolion a llety sy'n cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr gan y sector masnachol o dan Ddeddf Tai 2004.

- **Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 29: Canllawiau Gorfodi Amodau Tai (Deddf Tai 2004: Rhan 1 - System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 29, The Housing Health and Safety Rating System: Operating Guidance (Housing Act 2004 : Pt 1)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau Gwenyn 1982 a Gorchymyn Mewnforio Gwenyn 1997 yn darparu'r mesurau presennol i ddiogelu iechyd y nythfeydd gwenyn mêl ym Mhrydain Fawr. Gyda'i gilydd, maent yn ei gwneud yn orfodol hysbysu pan bod amheuaeth o glefyd hysbysadwy, maent yn galluogi arolygwyr awdurdodedig o wenyn i arolygu a thrin gwenyn am glefydau

hysbysadwy, ac maent yn gwahardd mewnforio gwenyn o drydydd gwledydd ac eithrio o dan drwydded.

Bydd Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006 yn diddymu ac yn disodli Gorchymyn Rheoli Clefydau Gwenyn 1982 a Gorchymyn Mewnforio Gwenyn 1997. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r mesurau diwygiedig i reoli dau glefyd hysbysadwy endemig yng Nghymru, sef Pla Gwenyn America a Phla Gwenyn Ewrop. Er gwaethaf eu henwau tebyg, mae'r ddau yn cael eu hachosi gan ddau facteriwm digysylltiad, ac mae'r ddau glefyd i'w cael yn y DU. Mae Pla Gwenyn America yn cael ei achosi gan facteriwm o'r enw Paenibacillus larvae subspec. larvae. Mae Pla Gwenyn Ewrop yn cael ei achosi gan facteriwm o'r enw Melissococcus plutonius. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cyflwyno mesurau newydd a fyddai'n cael eu defnyddio pe deuid o hyd yn y dyfodol i'r plâu ecsotig o wenyn, chwilen fach y cwch a gwyddon tropilaelaps. Bydd y ddau yn cael eu dynodi yn hysbysadwy.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (15 munud )**

Mae Deddf Addysg 2005 yn diddymu Deddf Arolygu Ysgolion 1996 a bydd (pan fydd yn cychwyn ar Medi 2006) yn rhoi fframwaith statudol newydd ar gyfer arolygu ysgolion ac addysg enwadol yng Nghymru. Mae angen am y Rheoliadau newydd hyn fel y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru bennu’r personau y bydd yr ysgolion yn ymgynghori â hwy mewn perthynas â’r ddyletswydd newydd ar gyrff llywodraethu yn adran 50(2) o Ddeddf Addysg 2005. Mae’r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol bod ysgolion a ddynodwyd yn rhai sydd â chymeriad crefyddol yn ymgynghori ag unrhyw bersonau penodedig cyn penodi arolygydd i arolygu addysg enwadol ac addoli ar y cyd yn yr ysgol.

Hefyd, mae’r Rheoliadau’n cryfhau ac yn tacluso’r gofynion cyfredol a bennwyd yn y Rheoliadau a wnaed o dan yr hen fframwaith statudol:

- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998 (fel y’u diwygiwyd); a

- Rheoliadau Addysg (Arolygwyr Cofrestredig) (Ffioedd) 1992.

Mae Rheoliadau 1992 a 1998 yn cael eu diddymu a'u disodli gan y Rheoliadau hyn.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 29 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol 2006 (15 munud)**

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r ffaith fod Asiantaethau Meddygol Annibynnol wedi'u cynnwys yn y fframwaith rheoleiddio. Caiff y Safonau hyn eu defnyddio gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AIC) pan fydd yn penderfynu a yw'r sefydliadau gofal iechyd annibynnol yn darparu gofal digonol.

- **Motion to delegate functions under section 10(1) of the Railways Act 2005 to the Enterprise, Innovation and Networks Committee (10 munud )**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Seilwaith Rheilffyrdd (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher 28 Mehefin 2006</u>**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig I gymeradwyo The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) (Amendment) Regulation 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) (15 munud )**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006 (15 munud )**

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros weinyddu Tir Gofal o Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCC) i'r Cynulliad Cenedlaethol. Maent hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â chytundebau Tir Gofal a wnaed gan CCC, o dan Reoliadau Cynllun Tir Gofal (Land in Care) (Cymru) 1999, i'r Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r cyfeiriadau yn Rheoliadau 1999 at rai o Offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd, sydd naill ai wedi'u diwygio neu eu disodli ers 1999.

Sefydlwyd Tir Gofal yn 1999 fel rhan annatod o'r Rhaglen Datblygu Gwledig gyntaf yng Nghymru. Ers hynny, mae'r cynllun wedi'i gynnal yn llwyddiannus ar y cyd â Chyngor Cefn

Gwlad Cymru (CCC); mae'r ceisiadau a'r taliadau wedi cael eu gweinyddu gan CCC, ac roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth mapio ac yn rheoli'r polisi yn gyffredinol. Ar hyn o bryd mae tua 2,900 o gytundebau sy'n golygu bod rhyw 307,000 hectar o dir amaethyddol (tua un rhan o bump o holl dir amaethyddol Cymru) dan reolaeth amgylcheddol gadarnhaol.

Roedd Tir Gofal yn cyfuno nodweddion gorau'r cynlluniau a'i rhagflaenodd (Tir Cymen, AASau a'r Cynllun Cynefinoedd) yn un cynllun amaeth-amgylcheddol ar gyfer y fferm gyfan a oedd ar gael ledled Cymru. Mae'n cynnwys amodau penodol iawn ar gyfer rheoli tir sy'n cwmpasu bioamrywiaeth, tirwedd, nodweddion hanesyddol a mynediad i'r cyhoedd yn ogystal ag ystod eang o fesurau ar gyfer y fferm gyfan. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gwaith cyfalaf, er enghraifft ar ffiniau caeau. Cynlluniwyd Tir Gofal i helpu'r gymuned ffermio i ddiogelu treftadaeth gyfoethog Cymru wledig ac i sicrhau buddiannau amgylcheddol a hybu'r pleser a geir yng nghefn gwlad. Mae ffermwyr yn trefnu cytundebau 10 mlynedd ac yn cael taliadau blynyddol sy'n seiliedig ar y costau o gydymffurfio ag amodau'r cynllun.

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Cynllun y Bartneriaeth Llywodraeth Leol (60 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar Bapurau Newyddion yng Nghymru (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2006</u>**

- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig I gymeradwyo The Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County Borough of Conwy) Order 2006 (15 munud )**

The London Boroughs have been enforcing decriminalised parking since July 1994 and a number

of English Authorities outside London have applied for and been granted the necessary powers. In Wales, Neath Port Talbot was granted these powers in 1999, Carmarthenshire County Council from 1 February 2004 and Denbighshire County Council from 1 July 2004.

Conwy County Borough Council has now made an application to the National Assembly for Wales to obtain these powers. The intended effect of this Order is to give the Council the power to enforce decriminalised parking restrictions within the County Borough of Conwy. This will apply to the whole County Borough except for the entire length of the A55 Trunk Road, including its on and off slip roads, within the County Borough. Under this system non-endorsable offences such as parking on double yellow lines would no longer be enforced in a criminal law context but would become the subject of enforcement through a civil law regime. In effect this function, which is currently carried out by the North Wales Police, would be undertaken by the Council. The Council is working to the introduction of these powers taking effect from 1 September 2006.

- **Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu'r Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) 2005, sy'n pennu'r Taliadau Colli Cartref cyfredol. Byddant yn cynyddu uchafswm ac isafswm y Taliadau Colli Cartref fesul cynyddran o'r lefelau cyfredol o £38,000 a £3,800 i £40,000 a £4,000 ac yn cynyddu'r gyfradd sylfaenol o £3,800 i £4,000.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 i newid enwau Byrddau Iechyd Lleol Powys, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn Fyrddau Addysgu Iechyd Lleol i adlewyrchu eu statws addysgu.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y ffi ostyngedig am bresgripsiynau a'r eithriad rhag talu

ar gyfer personau dan 25 oed yn berthnasol i bresgripsiynau a ysgrifennwyd ar ffurflen bresgripsiwn Saesneg pan ddangosir cerdyn dilys a phan fydd y presgripsiwn yn cael ei roi gan fferyllfa dan gontract i un o Fyrddau Iechyd Lleol Cymru**.**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 fel bod cynnydd o 2.5% yng ngwerth y talebau a roddir tuag at gyflenwi, adnewyddu neu drwsio sbectol, lensys cyffwrdd a chyfarpar optegol eraill, sef o £48.00 i £49.20.

- **Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006 o dan Reol Sefydlog 29 (15 munud)**

Mae angen y Cyfarwyddiadau hyn fel y gall Caerffili a Rhondda Cynon

Taf arfer ar y cyd eu swyddogaethau fel Byrddau Addysgu Iechyd Lleol.

**Proposal to debate the following 2 items together but with separate votes(15 munud)**

- **Cynnig I gymeradwyo Criteria for Initial Teacher Training Accreditation by the Higher Education Funding Council for Wales 2006 o dan Reol Sefydlog 29**

  This legislation details the accreditation criteria which all accredited institutions providing courses of initial teacher training (ITT) must satisfy. They include requirements for the provision of ITT courses, replacing those contained in Welsh Office Circular 13/98. This legislation should be considered alongside the Qualified Teacher Status (QTS) Standards, which set out the standards individuals are required to demonstrate in order to gain QTS.

- **Cynnig I gymeradwyo Qualified Teacher Status Standards 2006 o dan Reol Sefydlog 29**

This legislation details the standards individuals are required to meet in order to gain Qualified Teacher Status (QTS) whichever route into teaching they take, including employment-based teacher training programmes. They should be considered alongside the Criteria for Initial Teacher Training (ITT) Accreditation by the Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW), which set out the ITT Course requirements.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar Gynnig o dan Reol Sefydlog 31 gan Michael German AC (45 munud)**

Cynigir drwy hyn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i ddiwygio:

a) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, am gyfnod o 3 blynedd, a

b) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

er mwyn cymell a'i gwneud yn haws i ddeiliaid tai osod technolegau microgynhyrchu yn eu tai.

**Dydd Mercher 5 Gorffennaf 2006**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y nodwyd yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion (30 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:**

**Rhan 2 yr Adolygiad Polisi Anghenion Addysgol Arbennig (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

  - **Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006**

    Mae angen y Rheoliadau hyn i ddisodli Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Sefydliadau Ewropeaidd) 2000. O dan Reoliadau 2000, rhoddwyd cymorth ariannol ar sail Cymru a Lloegr ar gyfer cwota bach o hyd at 50 o fyfyrwyr sy’n astudio cyrsiau ôl-radd penodol yn un o dri Sefydliad Ewropeaidd; Canolfan Bologna yn Bologna, yr Eidal; Coleg Ewrop yn naill ai Bruges, Gwlad Belg neu Natolin, Gwlad Pwyl; a Sefydliad y Brifysgol Ewropeaidd yn Florence, yr Eidal. Gan fod polisi cefnogi myfyrwyr yn cael ei ddatganoli i Gymru, mae angen cyflwyno’r Rheoliadau hyn i wneud darpariaeth ariannol ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2006/07 ymlaen sy’n astudio cwrs ôl-radd yn un o’r Sefydliadau Ewropeaidd hyn. Bydd y Rheoliadau hyn yn pennu’r amodau y bydd rhaid i fyfyrwyr eu bodloni i fod yn gymwys i dderbyn y cyfryw gymorth, ynghyd â sut i ymgeisio a’r terfynau amser perthnasol.

  - **Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) (Cymru) 2006**

    Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1997 Rhif 1972 sy’n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae’r pwerau sy’n rheoli’r Rheoliadau presennol yn cael eu darparu gan Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, ac mae adran 2 o’r Ddeddf wedi’i dirprwyo i’r Cynulliad. Mae Adran 2 yn gwneud darpariaeth fel y gall y Cynulliad roi rheoliadau yn eu lle sy’n pennu’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer dyfarniadau addysg gorfodol gan Awdurdodau Addysg Lleol neu’r Cynghorau Ymchwil ac mae’n cyfyngu’r dyfarniadau i’r myfyrwyr hynny a all ddangos bod ganddynt gysylltiad â'r DU. Mae angen y Rheoliadau diwygio i ddiweddaru Rheoliadau 1997 i ehangu'r meini prawf cymhwysedd i gydymffurfio â’r newidiadau diweddaraf i'r gyfraith Ewropeaidd.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Pysgota Môr (Stoc o Gegdduon Gogleddol) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer rheoli pysgota a glanio Cegdduon Gogleddol yng Nghymru, drwy wella’r drefn o fonitro a gorfodi gweithgareddau’r cychod sy’n dal Cegdduon. Bydd hynny’n ei gwneud yn haws i orfodi’r cyfyngiadau cwota a thrwy hynny’n sicrhau yr adferir y stoc.

- **Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda’i gilydd, ond gan bleidleisio arnynt ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy’n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv)**

Bydd y Gorchymyn a’r Rheoliadau hyn yn trosi’r Gyfarwyddeb Ffliw Adar (Cyfarwyddeb EC 2005/94) sy’n pennu’r rheolaethau ar gyfer Ffliw Adar. Bydd y trosi yn golygu, yn bennaf, ymgorffori yn y Gorchmynion Trosi brif sylwedd Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Rhif 2) 2005 a Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal Mewn Swau) (Cymru) (Rhif 2) 2005 a wnaethpwyd fis Rhagfyr y llynedd i weithredu Penderfyniadau’r Comisiwn, sy’n dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2006. Penderfyniadau’r Comisiwn yw 2005/734 /EC fel y’i diwygiwyd gan 2005/745/EC a 2005/744/EC.

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Ailstrwythuro’r Heddlu (60 munud)**

- **Dadl Fer (30 munud)**

# Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2006

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Adolygiad Beecham (30 munud)**

- **Cynnig I gymeradwyo The Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 (15 munud )**

These Regulations are intended to amend the existing Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2006 No. 126 (W.19), which set out the student support arrangements for students ordinarily resident in Wales for the academic year 2006/07 and enables the National Assembly for Wales to make awards of grants and loans to eligible students. The changes are required to ensure compliance with a European Directive on the movement of citizens, to make provision for college fee loans for Oxbridge students and to incorporate a number of technical amendments.

# • Cynnig I gymeradwyo The Standards Committees (Wales) (Amendment) Regulations 2006 (15 munud )

These Regulations make provision to amend the Regulations concerning (amongst other things) the size, composition and proceedings of standards committees of relevant authorities in Wales, other than police authorities. Such provisions are contained in the Standards Committees (Wales) Regulations 2001 (SI 2001/2283). The Regulations also make provision for any sub-committees of standards committees established under section 54A or section 56 of the Local Government Act 2000.

•

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2006</u>**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Dadl ynghylch Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru (90 munud)**

- **Dadl ynghylch Adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**